# Fforwm Cwsmeriaid

## NODIADAU

### 31/07/25

10:00 – 12:00 (torri am goffi am 11:00)

**Gofyn am ganiatâd i recordio'r cyfarfod** ✓

**Cwsmeriaid:** TU, BJ, PD, HW, AB, PU; SF, VW; AM, DJ (10)

**Staff:** Katie Double, Mark Lewis, David Tovey, Sue Mackie, Ali Evans, Rhys Jenkins, Joanne George, Allyn Pritchard

**10:00 Cyflwyniadau a gair o groeso** – Ali Evans (Cydlynydd Ymgysylltu)
**10:05 Diweddariadau am y sefydliad, gan gynnwys y Fforwm a'r Pwyllgor Cwsmeriaid – Pwyntiau i'w trafod –** Mark Lewis (Cyfarwyddwr Gweithredol – Cwsmeriaid)

Llongyfarchodd Mark y cwsmeriaid ar eu llwyddiant yng Ngwobrau TPAS yn ddiweddar.
Pwysleisiodd Mark mor werthfawr oedd y cyfraniad a wnaed gan gwsmeriaid i'r broses o recriwtio aelodau Bwrdd yn ddiweddar.
Rhoddodd Mark sicrwydd mai cymryd peth o waith y Bwrdd, yn hytrach na gwaith y Fforwm Cwsmeriaid, y byddai'r Pwyllgor Cwsmeriaid newydd yn ei wneud ac y byddai'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith i'r Pwyllgor Cwsmeriaid – sef pwyllgor sy'n cynnwys pobl a allai fod â mwy o wybodaeth am rai pynciau.
Eglurodd Mark fod angen cyswllt ffurfiol, uniongyrchol â'r Bwrdd – sef diben y Pwyllgor Cwsmeriaid – a bod angen i ni i gyd sylweddoli lefel yr adnoddau sydd gennym a pheidio ag ailadrodd yr un gwaith yn y Fforwm Cwsmeriaid.

**Y newid i Windows 11 ac unrhyw effeithiau posibl ar gydymffurfio** – Rhys Jenkins (Pennaeth Systemau Digidol)
Rhoddodd Rhys sicrwydd na fyddai'r newid i Windows 11 yn effeithio ar gydymffurfio yn ateb. Cafwyd trafodaeth agored wedyn ynghylch gwahanol bynciau megis offer cwsmeriaid a mynediad i'r feddalwedd ddiweddaraf.

**Iechyd a Diogelwch o ran y Landlord** – Joanne George (Cydymffurfiaeth Asedau – Arweinydd Tîm)
Cynigiwyd darparu'r holl ddata ond canolbwyntiwyd ar y ddau brif faes ar gyfer cydymffurfio, sef:

- Rhoi gwasanaeth i systemau gwresogi – dim ond saith achos o fethu â chydymffurfio sydd ar hyn o bryd.
- Systemau trydanol – dim ond chwe achos o fethu â chydymffurfio sydd ar hyn o bryd.

Problemau o ran methu â chael mynediad – Mae'r Tîm Cydymffurfio yn gweithio gyda'r Tîm Cwsmeriaid i wella hynny, e.e. drwy gynnig cymhellion / addysgu / adolygu llythyrau gydag adborth gan gwsmeriaid

Dywedodd Joanne y byddai Rheolwr Cydymffurfio newydd yn dechrau ar ei swydd ym mis Medi.

**Torri am goffi** – Pawb

**Paneli solar, rheoleiddio a batris storio ynni – Beth y mae ateb yn ei wneud ar hyn o bryd a beth y mae'n bwriadu ei wneud; Synwyryddion mewn cartrefi** – Allyn Pritchard (Uwch-reolwr Buddsoddi mewn Eiddo)
Adroddodd Allyn ynghylch gwaith a gwblhawyd i osod systemau solar ffotofoltäig a systemau batris mewn cartrefi, gan dynnu sylw at heriau o ran rheoleiddio a chynllunio. Mae pob eiddo yn dilyn Llwybr Ynni Targed er mwyn bodloni'r sgôr ynni sy'n ofynnol dan Safon Ansawdd Tai Cymru. Bydd rhaglenni ôl-osod yn ehangu, a bydd yr hyn a osodir wedi'i deilwra i anghenion yr eiddo, gan sicrhau bod cymaint o ynni ag sy'n bosibl yn cael ei gynhyrchu o fewn y terfynau cyfreithiol.  Cafwyd trafodaeth wedyn.

**Cyflwyno staff newydd** – Katie Double (Rheolwr Atebion o ran Tai)
Cyflwynodd Katie ei hun gan sôn am ei gyrfa yn y gorffennol ac egluro sut y bydd yn arwain y Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Cydlynwyr Tai ac Arweinwyr Tîm yn awr. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli tenantiaethau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a rhent ac ôl-ddyledion, yn ogystal â gosod a dyrannu eiddo.

**Cod Ymddygiad Cwsmeriaid** – Sue Mackie (Arweinydd Tîm Datblygu Cymunedol)
Dywedodd Sue mai'r nod oedd gwneud y cod ymddygiad ffurfiol yn fwy hygyrch ac yn fwy hwylus i'w ddefnyddio; y nod yw sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu mewn digwyddiadau, heb deimlo eu bod dan fygythiad neu fod pobl eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Dywedodd Sue y byddai'n falch o gael awgrymiadau ynghylch sut y gellid cyflwyno'r ddogfen mewn ffordd fwy diddorol.
Cam gweithredu: Caiff fersiwn drafft o'r cod ei anfon i TPAS er mwyn cael eu sylwadau nhw arno, fel bod eu safbwyntiau nhw gennym hefyd.

**Data ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Adroddiad Adborth gan Gwsmeriaid** – David Tovey (Pennaeth Cwsmeriaid)
Caiff yr Adroddiad ei anfon at gwsmeriaid a fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno sylwadau a chwestiynau.

**Ôl-ddyledion rhent** – David Tovey
Roedd cwsmer wedi gofyn pam y cafodd lythyr a oedd fel pe bai'n awgrymu bod ganddo ddyled o £500, pan nad oes ganddo ffordd arall o dalu ei rent, gan ei fod yn talu trwy'r system fudd-daliadau.  Ymateb: Mae angen i ni gael adborth gan gwsmeriaid ynghylch natur y llythyr, a bydd ateb yn mynd i'r afael â hynny wedyn.

- **Unrhyw fater arall / Unrhyw awgrymiadau ynghylch eitemau i'w cynnwys ar yr agenda** – (Pawb)
- Cwestiynau am lanhau paneli solar – Dywedodd Dave y byddai'n holi'r Adran Eiddo am hynny.
- Cwestiynau am swyddfa newydd ateb a phryd y byddai'r symud yn digwydd – Eglurodd Dave fod disgwyl i'r symud ddigwydd ddiwedd mis Awst.

**Dyddiadau i'r dyddiadur:**

- **Digwyddiad Atebion o ran Tai/Ymgysylltu:** 04/08/25; Stover Avenue; 16:00-19:00
- **Digwyddiad Atebion o ran Tai/Ymgysylltu:** 05/08/25; Kensington Court; 14:30-16:30
- ~~**Digwyddiad Atebion o ran Tai/Ymgysylltu**: 07/08/25; Grove Street/Castle Street, Pennar; 16:30-18:30~~
- ~~**Digwyddiad Atebion o ran Tai/Ymgysylltu**: 14/08/25; Vetch Close; 13:00-16:00~~
- **Fforwm Cwsmeriaid:** 25/09/25; 10:00-12:00; ar-lein
- **Grŵp Cynllunio Arolygon:** 9 Medi; 10:00-11:00 Adolygu'r Arolwg Rhent a Thaliadau Gwasanaeth; Adolygiad 6 Mis o'r Arolwg Ymgysylltu; Creu Arolwg STAR
- **Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** – Lleoliadau i'w cadarnhau; 14:00-16:00; 01/10/25 a 25/03/26.

**Caiff help gyda chludiant a chostau cludiant, gofal a dewisiadau o ran bwyd ei ddarparu ym mhob un o ddigwyddiadau Ymgysylltu ateb**

**CYSYLLTU Â NI:**


**Ali Evans** (Cydlynydd Ymgysylltu)

01437 774766 / 07500 446611 ailinor.evans@atebgroup.co.uk

**Sue Mackie** (Arweinydd Tîm Datblygu Cymunedol)

01437 763688 susan.mackie@atebgroup.co.uk

**Anne Kerr-Hughes (Swyddog Ymgysylltu REACH)**

07832 245962 anne.kerr-hughes@atebgroup.co.uk

**Andrew Jenkins** (Cynghorydd Lles Cymunedol)

01437 774770 / 07508 498855 andrew.jenkins@atebgroup.co.uk